Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government

www.cymru.gov.uk

# FFURFLEN CYFLWYNO SYLWADAU AM GAMAU GWELLA CORIDOR YR M4

## DEFNYDDIWCH Y FFURFLEN HON I ROI EICH SYLWADAU A'CH SYNIADAU OS BYDDAI'N WELL GENNYCH BEIDIO Â RHOI ADBORTH AR Y DALENNI SYDD AR Y PANELI. DYMA GRYNODEB O'R WYBODAETH BERTHNASOL.

### BETH SYDD YMA? BETH ALLWCH CHI EI WNEUD HEDDIW?

Cewch y cyfle heddiw i roi **eich safbwyntiau** am deithio ar yr M4 a'r cyffiniau rhwng Magwyr a Chas-bach. Cewch roi eich barn am ddau brif bwnc, sef beth ydych chi'n ei feddwl yw'r:

- prif **broblemau**
- **targedau** y dylem fod yn anelu tuag atynt

Mae hyn yn dipyn i'w ystyried. Mae croeso i chi roi sylwadau am rai o'r problemau neu'r targedau, os yw hynny'n well gennych.

### BETH YW'R CYD-DESTUN?

Mae safon dyluniad traffordd yr M4 rhwng Magwyr a Chas-bach yn llawer is na'r hyn a ddisgwylir yn yr oes fodern o ran maint a diogelwch.

Mae tagfeydd a'r ffaith nad oes posibl gwybod faint o amser y bydd teithiau yn eu cymryd wedi bod yn broblemau ar yr M4 o gwmpas Casnewydd ers blynyddoedd lawer.

Mae'r materion hyn yn waeth yn ystod oriau brig ac maent am waethygu ymhellach wrth i ragor o bobl ddefnyddio'r rhwydwaith.

Mesurwyd y rhain yn ogystal â diffygion eraill o bwys yn system drafnidiaeth de-ddwyrain Cymru yn fanwl.

Mae'r posibilrwydd o adeiladu traffordd i ryddhau'r baich wedi cael ei ystyried ond fe gyhoeddodd Llywodraeth Cynulliad Cymru ym mis Gorffennaf 2009 nad oedd hyn bellach yn fforddiadwy.

Felly, yn rhan o strategaeth drafnidiaeth de-ddwyrain Cymru, sefydlwyd Rhaglen Camau Gwella Coridor yr M4 rhwng Magwyr a Chas-bach i ystyried ffyrdd o wella'r M4 a'r ardal gyfagos a elwir yn goridor yr M4.

Ffurflen Adborth Arddangosfeydd Ionawr a Chwefror, 2011 – Deunydd Cyfarwyddyd Yn Unig




Coridor yr M4 Magwyr I Gas-bach

## PA GAMAU SYDD EISOES WEDI'U CYMRYD I WELLA?

I wneud yr M4 yn fwy diogel i ddefnyddwyr, mae rhwystrau canolog concrid wedi'u gosod yn lle rhai rhannau o rwystrau canolog dur.

I leddfu tagfeydd, mae gwelliannau wedi cael eu gwneud i'r gylchfan yng Nghyffordd 24 yn y Coldra.

Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi prynu'r ffordd rhwng gweithfeydd dur Llanwern er mwyn creu cysylltiad rhwng Cyffwrdd 23a a'r Ffordd Ddosbarthu Ddeheuol.

Ffurflen Adborth Arddangosfeydd Ionawr
rwyddyd Yn Unig

## BETH SY’N DIGWYDD AR Y DRAFFORDD NAWR – GWAITH SY’N MYND RHAGDDO

Er mwyn gela llif y traffig a diogelwch ar yr M4 rhwng y Coldra a Pharc Tredegar, mae System Cyflymder Amrywiol wedi’i gosod ac mae bellach yn cael ei gomisiynu. Mae swyddogion traffig wedi’u defnyddio i atgyfnerthu’r camau hyn i wella diogelwch ac effeithlonrwydd. Yn ogystal, mae rhagor o rwystrau canolog concrid yn cael eu gosod yn lle rhannau o rwystrau canolog dur.

## GYDA PHWY MAE LICC YN TRAFOD HYN I GYD?

Dros y flwyddyn nesaf, bydd Llywodraeth Cynulliad Cymru yn ceisio barn amrywiaeth eang o bobl a sefydliadau sydd â diddordeb mewn teithio ar yr M4, gan gynnwys y cyhoedd. Rydym yn arbennig o awyddus i glywed gan bobl sy’n cael eu heffeithio fwyaf, er enghraifft oherwydd eu bod yn byw neu’n gweithio gerllaw’r draffordd.

Cynhelir cam cyntaf proses wrando’r digwyddiadau hyn ar hyn o bryd. Cewch y cyfle nes ymlaen eleni i roi eich barn am rai camau ymarferol posibl i wella’r sefyllfa yng nghoridor yr M4.

## SUT GALLAF GAEL Y NEWYDDION DIWEDDARAF?

www.wales.gov.uk/transport

I gael adroddiad am y digwyddiadau galw heibio hyn a chael gwybod am ddatblygiadau newydd yn ogystal â chyfleoedd pellach i ddylanwadu ar gam nesaf y rhaglen, cewch hefyd roi eich manylion i ni heddiw.

Ffurflen Adborth Arddangosfeydd Ionawr a Chwefror, 2011 – Defnydd Cyhoeddwyddyd Yn Unig

**DYMA'CH CYFLE CHI:**

✍ Edrychwch ar bob problem a'r targed deng mlynedd, a

- ✓ Thiciwch bob problem y mae angen mynd i'r afael ag ef neu darged rydych yn ei gefnogi
- ✗ Rhowch groes gyferbyn ag unrhyw beth nad ydyw'n peri problem neu na ddylai fod yn darged yn eich barn chi

✍ O dan sylwadau, **dywedwch pam eich bod yn cytuno neu'n anghytuno** â'r hyn sy'n cael ei ddatgan; mae pob croeso i chi awgrymu sut y dylid newid y broblem neu'r targed dan sylw

✍ Cewch ychwanegu problemau neu dargedau newydd yn y lle a ddarperir

| | |
|---|---|
| Problem 1 | **Cynnal llif y traffig ar yr M4 pan fo anawsterau dros dro** (er enghraifft, ar ôl damweiniau, problemau a achosir gan dywydd garw neu pan fo digwyddiadau pwysig yn cael eu cynnal). |
| ✓ / ✗ | ✍ Eich sylw......... |
| Problem 2 | Nid yw'r M4 yn ardal Casnewydd wedi'i dylunio ar gyfer faint o draffig sy'n ei defnyddio**, gan achosi tagfeydd yn rheolaidd yn ystod oriau brig.** |
| ✓ / ✗ | ✍ Eich sylw......... |
| Problem 3 | Disgwylir i lefelau traffig barhau i gynyddu gan olygu bydd **problemau 1 a 2 yn gwaethygu maes o law.** |
| ✓ / ✗ | ✍ Eich sylw......... |

Ffurflen Adborth Arddangosfeydd Ionawr a Chwefror, 2011 – Deunydd Cyfarwyddyd Yn Unig

| | |
|---|---|
| Problem 4 | **Mae’r rhwydwaith drafnidiaeth gyfredol yn rhwystro twf economaidd** (er enghraifft, hwyrach y bydd cwmnïau lorïau yn penderfynu peidio â buddsoddi yn ne Cymru os bydd yr amser a gymerir i gludo nwyddau yn cynyddu). |
| ✓ / ✗ | ✍ Eich sylw......... |
| Problem 5 | **Mae angen gwneud llawer o waith cynnal a chadw ar yr M4 dros y 5-10 mlynedd nesaf; bydd hyn yn achosi cyfyngiadau ar lonydd a chyflymder dros amser maith, ac yn cynyddu’r tagfeydd yn sgil hynny**. |
| ✓ / ✗ | ✍ Eich sylw......... |
| Problem 6 | **Nid yw lorïau trymion yn ymdopi’n dda mewn tagfeydd gan eu bod yn cymryd mwy o amser i symud eto ar ôl arafu, gan ychwanegu at y tagfeydd.** |
| ✓ / ✗ | ✍ Eich sylw......... |
| Problem 7 | **Mae’r tagfeydd araf ar y draffordd ger Casnewydd yn gwaethygu’r llygredd sydd yn yr aer.** |
| ✓ / ✗ | ✍ Eich sylw......... |

Ffurflen Adborth Arddangosfeydd Ionawr a Chwefror, 2011 – Deunydd Cyfarwyddyd Yn Unig

| | |
|---|---|
| Problem 8 | **Mae traffig sy'n gorfod symud a stopio yn gyson ar yr M4 yn achosi mwy o allyriadau nwyon tŷ gwydr na thraffig sy'n llifo'n ddidrafferth.** |
| ✓ / ✗ | ✍ Eich sylw......... <br><br> . |
| Problem 9 | **Mae tywydd eithafol yn peri risg cynyddol o amharu ar system drafnidiaeth y ffyrdd a'r rheilffordd yn ardal coridor yr M4** (er enghraifft, llifogydd). |
| ✓ / ✗ | ✍ Eich sylw......... |
| Problem 10 | **Mae sŵn y traffig yn achosi problemau i drigolion lleol.** |
| ✓ / ✗ | ✍ Eich sylw......... |
| Problem 11 | **Nid yw coridor yr M4 yn bodloni nod LICC i gynnig mynedfa well i Gymru.** |
| ✓ / ✗ | ✍ Eich sylw......... |

Ffurflen Adborth Arddangosfeydd Ionawr a Chwefror, 2011 – Deunydd Cyfarwyddyd Yn Unig

| | |
|---|---|
| Problem 12 | **Mae'r system drafnidiaeth gyfredol yn cyfyngu ar sut gall cynghorau lleol ddatblygu eu hardaloedd.** |
| ✓ / ✗ | ✍ Eich sylw......... |
| Problem 13 | **Mae'r cyfraddau damweiniau ar yr M4 rhwng Magwyr a Chas-bach yn uwch na chyfradd traffyrdd y DU ar gyfartaledd.** |
| ✓ / ✗ | ✍ Eich sylw......... |
| Problem 14 | **O bryd i'w gilydd, mae'r problemau ar yr M4 rhwng Magwyr a Chas-bach yn cael cryn effaith ac yn amharu'n sylweddol ar deithio yn ne Cymru.** |
| ✓ / ✗ | ✍ Eich sylw......... |

| |
|---|
| Nodwch unrhyw **broblemau** ychwanegol yma. |
| |

Ffurflen Adborth Arddangosfeydd Ionawr a Chwefror, 2011 – Deunydd Cyfarwyddyd Yn Unig

## BETH DDYLEN NI GEISIO'I WNEUD?

Mae'r adran hon yn trin a thrafod y mathau o gludiant a'r targedau eraill y dylen ni geisio'u cyflawni.

| | |
|---|---|
| Targed 1 | **Cynnig ffyrdd haws a chyflymach o deithio o'r dwyrain i'r gorllewin yn ne Cymru.** |
| ✓ / × | ✍ Eich sylw......... |
| Targed 2 | **I Gwella cysylltiadau trafnidiaeth i Loegr, Gweriniaeth Iwerddon a gweddill Ewrop ar y rhwydwaith drafnidiaeth ryngwladol.** |
| ✓ / × | ✍ Eich sylw......... |
| Targed 3 | **Hyrwyddo defnydd mwy effeithiol o ddulliau teithio nad ydynt yn cynnwys yr M4, gan gynnwys rhannau eraill y rhwydwaith drafnidiaeth ac ar gyfer teithiau lleol o gwmpas Casnewydd.** |
| ✓ / × | ✍ Eich sylw......... |
| Targed 4 | **Gwneud y defnydd gorau posibl o'r M4 fel y mae a rhwydwaith y ffyrdd lleol.** |
| ✓ / × | ✍ Eich sylw......... |

Ffurflen Adborth Arddangosfeydd Ionawr a Chwefror, 2011 – Defnydd Cyfarwyddyd Yn Unig

| | |
|---|---|
| Targed 5 | **Cynnig amserau teithio mwy dibynadwy i'r rhai sy'n teithio ar yr M4.** |
| ✓ / ✗ | ✍ Eich sylw......... |
| Targed 6 | **Rhoi rhagor o ddewis i bawb sy'n teithio o fewn y coridor trafnidiaeth rhwng Magwyr a Chas-bach.** |
| ✓ / ✗ | ✍ Eich sylw......... |
| Targed 7 | **Galluogi pobl i gael gafael ar wasanaethau allweddol yn haws yn ogystal ag ardaloedd preswyl a masnachol.** |
| ✓ / ✗ | ✍ Eich sylw......... |
| Targed 8 | **Gwella diogelwch ar yr M4 rhwng Magwyr a Chas-bach.** |
| ✓ / ✗ | ✍ Eich sylw......... |

Ffurflen Adborth Arddangosfeydd Ionawr a Chwefror, 2011 – Deunydd Cyfarwyddyd Yn Unig

| | |
|---|---|
| Targed 9 | **Gwella ansawdd yr aer yn yr ardaloedd ger yr M4 o gwmpas Casnewydd.** |
| ✓ / ✗ | ✍ Eich sylw......... |
| Targed 10 | **Lleihau'r sŵn uchel y mae traffig yr M4 traffic rhwng Magwyr a Chas-bach yn ei achosi.** |
| ✓ / ✗ | ✍ Eich sylw......... |
| Targed 11 | **Lleihau'r allyriadau tŷ gwydr a achosir gan bob cerbyd/unigolyn fesul cilomedr.** |
| ✓ / ✗ | ✍ Eich sylw......... |
| Targed 12 | **Galluogi pobl i deithio i dde Cymru ar hyd corridor yr M4 yn ddidrafferth.** |
| ✓ / ✗ | ✍ Eich sylw......... |

Ffurflen Adborth Arddangosfeydd Ionawr a Chwefror, 2011 – Deunydd Cyfarwyddyd Yn Unig

| Nodwch unrhyw **darged(au)** ychwanegol yma. |
| --- |
| |
| |
| |
| |
| |
| |

Ffurflen Adborth Arddangosfeydd Ionawr a Chwefror, 2011 – Deunydd Cyfarwyddyd Yn Unig

**BETH DDYLEN NI GEISIO'I WNEUD YN GYFFREDINOL I HWYLUSO TEITHIO AR HYD Y RHAN HON O'R M4 A'R CYFFINIAU DROS Y DEGAWD NESAF?**

**RHOWCH EICH SYLWADAU AM EIN HAWGRYMIADAU AC YCHWANEGWCH RAI NEWYDD OS YDYCH YN DYMUNO.**

| | |
|---|---|
| 2010 – 20 | **Cymdeithasol:** galluogi pobl i gyrraedd gwasanaethau fel siopau, ysbytai, gwasanaethau hamdden a gweithleoedd naill ai ar y ffyrdd, ar gludiant cyhoeddus, cerdded neu feicio. |
| ✓ / × | ✍ Eich sylw......... |
| 2010 – 20 | **Economaidd**: cynorthwyo ac annog ffyniant yn y rhanbarth a ledled Cymru drwy gyflwyno rhwydwaith drafnidiaeth fwy effeithiol ar y fynedfa economaidd bwysig hon i dde Cymru. |
| ✓ / × | ✍ Eich sylw......... |
| 2010 – 20 | **Amgylcheddol:** atal a lleihau effeithiau negyddol rhaglen Camau Gwella Coridor yr M4 ar bobl a'r amgylchedd yn ogystal â chynnig gwelliannau i gydbwyso yn eu herbyn, os yw'n ymarferol. |
| ✓ / × | ✍ Eich sylw......... |

Ffurflen Adborth Arddangosfeydd Ionawr a Chwefror, 2011 – Deunydd Cyfarwyddyd Yn Unig

| Ar ôl 2020 | **Eich awgrymiadau ar gyfer y targed(au) cyffredinol ar ôl 2020.** |
| --- | --- |
| | |
| | |
| | |
| | |
| | |
| | |
| | |
| | |

Ffurflen Adborth Arddangosfeydd Ionawr a Chwefror, 2011 – Deunydd Cyfarwyddyd Yn Unig

**AC YN OLAF, RHOWCH WYBOD I NI BETH YW EICH BARN AM Y CYFLE I ROI EICH BARN HEDDIW**

1. **Pa mor ddefnyddiol oedd y cyfle hwn i roi eich barn?**

   Nid oedd ddefnyddiol 1 2 3 4 5 6 7 Defnyddiol iawn

Sylwadau

2. **Oedd y wybodaeth a gawsoch …**

| | | |
|---|---|---|
| Ddim yn ddigion | Yn union ddigon | Yn ormod |

Sylwadau:

3. **Oedd y wybodaeth yn hawdd i'w deall?**

| | | |
|---|---|---|
| Ddim yn hawdd o gwbl | Eithaf hawdd | Yn hawdd iawn |

Sylwadau:

4. **Pa neges hoffech chi ei rhoi Lywodraeth Cynulliad Cymru wrth iddynt symud ymlaen â rhaglen gwella coridor trafnidiaeth yr M4 rhwng Magwyr a Chas-bach (M4 CEM)?**

**DIOLCH**

Rhowch y ffurflen hon i aelod o'r tîm cyn i chi adael. Cofiwch, os rhowch eich manylion cyswllt i ni heddiw, byddwn yn anfon canlyniadau atoch fydd yn crynhoi'r arddangosfeydd hyn. Bydd y wybodaeth hon ar gael ar wefan LlCC hefyd www.cymru.gov.uk/trafnidiaeth.

Ffurflen Adborth Arddangosfeydd Ionawr a Chwefror, 2011 – Deunydd Cyfarwyddyd Yn Unig

Ffurflen Adborth Arddangosfeydd Ionawr a Chwefror, 2011 – Deunydd Cyfarwyddyd Yn Unig